



Chwefror 17eg 2019



Croeso cynnes i chi i gyd y bore 'ma, a diolch i'r Parchedig Gethin Rhys ac Eluned Davies Scott am gymryd gofal o'r gwasanaeth, ac i Eleri am gyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf:

**Mawrth 3ydd - Oedfa gydag aelodau
Pentre'r Eglwys a Thonteg a Sian yn
cyfeilio**

**Mawrth 10fed - Emlyn Davies gyda Carol
Williams, a Rhiannon yn cyfeilio**

**Mawrth 17eg - Sul Teuluol gyda Wendy,
Huw a Beth, a Sian yn cyfeilio**

**Mawrth 24ain - Y Parchg. Gethin Rhys,
gyda Wyn Jones, a Bethan yn cyfeilio**

Merched y Tabernacl

Dydd Mercher 6 Mawrth 12.30 pm
Cinio i Ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi
yng Ngwesty'r Bear, Bontfaen
Enwau os gwelwch yn dda i
Beti Treharne

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com

APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe roddodd yr Ysgol Sul a'r Twmiaid ddechrau anrhydeddus i'n hymgyrch ni drwy godi dros £500 yn eu Swper Cynhaeaf, ac mae'r casgliad yn tyfu'n raddol. Mae gyda ni tan mis Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000. Cofiwch am yr amlenni bach gwyn gydag "Apêl Madagascar" arnyn nhw. Gobaith yr Annibynwyr Cymraeg ydy codi £200,000 i gefnogi pedair elusen sy'n gweithio gyda'r tlawd a'r anghenus ym Madagascar, un o bedair gwlad dlotaf y byd.

Dyfyniad yr Wythnos

Nid nod Cristnogaeth yw dianc rhag y byd hwn. Ei nôd yw caru'r byd a cheisio ei newid er gwell..... mae iachawdwriaeth yn fwy i wneud â'r byd hwn na'r byd nesaf.
- **Marcus Borg, Diwinydd 1942-2015**

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21
Ar 29 a 30 Mawrth yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar ein gwefan:

<http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

CYNGERDD

Côr Pendyrus gyda Chantorion Richard Williams, Callum Howells a Samuel Morris yng Nghapel y Bedyddwyr Pontyclun ar 1af o Fawrth am 7.00 £10 y tocyn (oddi wrth Barrie Edwards 07788881136

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel: www.tabernacl.org